Cofnodion o Gyngor Cymuned Llanbedr a gyfarfu yn y Neuadd 2.11.23 am 7.30

Yn Bresennol

Annwen Hughes, Luise Vassie, Helen Johns, Eirwyn Thomas, Robin Ward, Nia Jones. John Evans, Kevin Titley, Jane Taylor

Ymddiheuriadau

Cyng. Gwynfor Owen

Datgan Buddiant – Y Clerc parthed cais cynllunio Capel Gwynfryn

Ceisiadau Cynllunio –

Wedi derbyn sylwadau gan yr ymgeisydd Cais Rhif NP5/62?LB297a a LB297B parthed Capel Gwynfryn.

Mae yn nodi yn y llythur

- Bod ei gyfreithiwr wedi paratoi fel bod pawb yn cael eu trin yn gyfartal.
- Parch I bawb sydd yn gofyn am hawl mynediad I'r fynwent
- Gadael iddynt wybod 7 diwrnod ymlaen llaw parthed unrhyw drefniadau angladdol.
- Gwasanaethau cynhebrwng yn cael defnyddio y dreif  a mynedfa Newydd.
- Plannu gwrych Newydd rhwng y fynwent a'r capel er mwyn sicrhau prifatrwydd I bawb.
- Wedi cytuno gyda'r eglwys I greu ramp a mynediad Newydd I'r fynwent, heb unrhyw gost , mynediad breifat I'r fynwent felly..
- Angen cael mapiau/planiau yn dangos hyn

Adroddiad Cyllid

Yn y Banc diwedd Hydref mae  £28,086.30

Derbyn gan Pritchard a Griffiths swm o £907.36

Cyfanswm felly o £28993.66

Angen cdarnhad I dalu y canlynol

Llogi Neuadd £ 12.50 Awst, £10.00 Hydref a £12.50 Hydref Cyfanswm o **£35.00**

**HAL** Swm am mis Tachwedd = £359.50

Cae Chwarae = £210.00

Aeron Richards – notice board £177.00

Archwiliad cae chwarae = £328.80 (TAW o £54.80) Heb dderbyn y bil yma eto.

Agor bedd ?            Hwn I ddod.

Gwrych cae chwarae ? £460 + £92.00 TAW ( cyfanswm o £ 552 incl. vat.)

Zoom a Microsoft 2 fis zoom = £107.98 + £79.99 = £187.97

Delyth Williams  £32.00 y mis

Angen hefyd cael anfoneb am waith llwybrau gan John Williams.

Materion yn Codi o'r Cofnodion

1.Gwaith y fynwent – clawdd ar y rhaglen waith mis Rhagfyr.

2. Cyfarfod rhwng rhai o'r Cynghorwyr gyda swyddogion Gwynedd – cerdded y Pentref er mwyn nodi llefydd gyda potensial I wneud gwelliannau, er diogelwch.

Cynhelir pwyllgor parthed hyn Rhagfyr 13 am 7.00 Neuadd Llanbedr. Dan sylw fydd

- Cyflwyno Rhaglen Waith wrth i ni symud ymlaen
- Nodi pryd fydd penderfyniadau yn cael ei wneud
- Diweddariad/Manylion pellach ynglŷn â'r Enillion Cyflym

3. Nododd AH bydd cyfarfod gyda TFW 30.11.23 yn Neuadd Llanbedr. Dim manylion pellach

4. Nododd JTW ei bod hithau wedi cael cyfarfod ar ran Pobl gyda Joyce Watson – Llafur. Gwaith menywod.

5. Sul y Cofio – trefniadau mewn llaw.

6. Adroddiad Cyngor Gwynedd – Annwen Hughes

a) Bod 1 Ger y Llan wedi ei werthu I Gyngor Gwynedd fel ty ar gyfer rhentu lleol.

b) Toiled merched – dal ar gau.

c) Arwydd man pasio ffordd Cypla – hyn ar y gweill. Bod angen lledu'r ffordd yma hefyd.

7. Huchenfeld – bod Dewi Wynne yn ymddeol o fod yn Drysorydd. Wedi bod yn gneud y Gwaith ers dros 15 mlynedd. Chwilio am drysorydd Newydd.

Angen rhoi manylion taith y cor ar y wefan.

8. LLwybrau Cyhoeddus – pa rai I dorri y flwyddyn nesaf – er mwyn rhoi yn y gyllideb –

Ychwanegu llwybr 43 Tyddyn Du.

Llwybr 8 I ben Graig Fawr

Angen anfon mapiau I bob Cynghorwr ar rhifau.

Beth am lwybr hygyrch – I gadeiriau olwyn ? Llwybr Coed Garth Goch?

Llwybr Arfordir – nododd HJ bod pobl yn defnyddio'r ffordd yn lle y llwybr gerllaw o'r Crossing I'r Maes Picnic. Angen Arwyddion clir yma.

Materion Eraill

1. Man hole ger Ty'r Graig angen eu drwshio - JE
2. RW yn nodi bod gwell rhwydwaith busiau yn awr.

3. RW – goleuadau nadolig.  Angen cael trydanwr I osod rhain.  Cost £1289 (a Taw) Cyngor yn hapus I helpu.
4. £400 hefyd ar gael yn y gyllideb ar gyfer goleuadu.
5. HAL – cynhelir cyfarfod Cynghorwyr yr Ardal yn Llanbedr parthed hyn 18.12 23.

Disgwyl cael ymateb ir e bost a anfonwyd atynt.

Rhain ydi'r cofnodion yn weddol llawn ar gyfer wefan.

Bydd angen eu cymeradwyo y mis nesaf.